Gerddi tylwyth teg

Trosolwg

Gweithgaredd awyr agored penagored sy'n canolbwyntio ar greu gardd goblynnod a thylwyth teg ac sy'n hybu'r dychymyg, creadigrwydd a'r defnydd o ddeunyddiau rhydd naturiol.



Gweithgareddau

Mwynhewch ychydig o hwyl mewn man naturiol neu defnyddiwch ddeunyddiau naturiol mewn teiar beic, ffrâm o frigau, cylchyn hwla neu bot planhigion.

Arbrofwch â deunyddiau megis tywod, pridd, glaswellt, rhisgl, graean, dŵr a mwsogl.

Defnyddiwch lestri plannu segur at ddiben arall er mwyn creu nodwedd chwarae sy'n fwy parhaol.

Cofiwch gynnwys planhigion gwydn megis helyg.

Defnyddiwch ddeunyddiau naturiol i greu cymeriadau, e.e. pobl o frigau a thrychfilod o gerrig mân.

Offer

- Amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol
- Ffigyrau byd bach
- Teiar beic, brigau i greu ffrâm, cylchyn hwla neu amrywiaeth o gynwysyddion – os nad oes man naturiol ar gael

Cwestiynau allweddol

Ym mha ardaloedd y byddai'r tylwyth teg yn hoffi byw?
Pam yr ydych wedi dewis yr ardaloedd hyn?
Beth yw'r pethau pwysicaf y mae angen i'r tylwyth teg eu cael yn eu gerddi?

Deilliannau dysgu

- Mathemateg – archwilio maint, graddfa, gemau cyfrif, trwm, ysgafn, mawr a bach.
- Laith – adrodd stori, deffro'r synhwyrau – meddal, pigog, llyfn, gludiog….
- Celfyddydau mynegiannol a chreadigrwydd gan ddefnyddio deunyddiau tymhorol a sgiliau echddygol manwl.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Beth sydd ei angen ar dylwyth teg i fyw – bwyd, dŵr, cysgod. Cysylltwch hynny â bywyd go iawn.
- Ymestyn yr adrodd stori a'r dychymyg – diwrnod ym mywyd tylwythen deg.
- Creu cartrefi i anifeiliaid, pryfed ac adar yn y man awyr agored.